YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2022 – Dosbarth y Gragen

# O'r Pridd i'r Plât

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw i ddatblygu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol trwy ddysgu a deall y broses o dyfu a chynhyrchu bwyd. Trwy'r uned ddysgu, bwriadwn feithrin dysgwyr egwyddorol a gwybodus ynglŷn a'u cyfrifoldeb o ran cynaladwyedd y blaned. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y dysgwyr yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud penderfyniadau rhesymol a iachus am eu ffordd o fyw, yn ogystal â datblygu eu sgiliau ymchwilio a chorff o wybodaeth am brosesau bywyd planhigion.**

## Y Dyniaethau

Deall bod tywydd a'r hinsawdd yn effeithio ar dyfiant planhigion ac ar gynhyrchu bwyd.
Dechrau gwerthfawrogi a gofalu am bethau byw, a deall ein cyfrifoldeb tuag at ein hamgylchedd.
Adnabod bod ein gweithredoedd yn cael effaith ar gymunedau ac yr amgylchedd.

## Celfyddydau Mynegiannol

Dysgu sut mae artistiaid yn darlunio planhigion, sut caiff planhigion eu cynrychioli mewn celf a sut i wneud darluniadau arsylwadol o blanhigion e.e. gwaith Georgia O'Keeffe.

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.

## Iechyd a Lles

Dysgu gweithio fel tîm,
Mwynhau gofalu am yr amgylchfyd a'r planhigion o gwmpas yr ysgol.
Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd, ymarfer sgiliau athletau a pharatoi ar gyfer y mabolgampau,
Datblygu sgiliau trin pêl,
Dysgu am bwysigrwydd ffrwythau a llysiau yn ein diet.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dysgu enwau rhannau o blanhigion a'u cylch bywyd ;
Deall beth yw'r amodau delfrydol ar gyfer tyfu planhigion;
Cyflawni profion teg a gwneud mesurau cywir;
Mwynhau cynllunio ymchwiliad;
Rhagfynegi canlyniadau;

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Creu cornel chwarae 'Gardd Aled Afal' a Chanolfan Arddio a mwynhau chwarae rôl.
Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **adroddiad ffeithiol** a **chyfarwyddiadau**.
Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol.

## Mathemateg a Rhifedd

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100.
Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
Defnyddio arian, parhau i ddatblygu sgiliau dweud yr amser a datblygu ein sgiliau datrys problem.
Datblygu ein sgiliau mesur – hyd, cynhwysedd a mas.
Archwilio siapau 2D a 3D
Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor yr Haf 2022 – Dosbarth y Gragen

# Bant â ni i gynllunio!

**Ein Cywaith Cloi**


Gobeithiwn gynnal bore coffi Masnach De gyn yr ysgol. Gobeithiwn hefyd ddefnyddio'r cynnyrch rydym wedi eu tyfu yn yr ysgol!

Mae mêl yn dod o flodau.
Wren

Pa blodau gallwn fwyta?
Bethan

Tyfu planhigion a llysiau.
Ffion

Sut i dyfu bwyd a faint o amser i dyfu?
Tom




Mynd i ganolfan arddio neu gardd mawr i weld planhigion a llysiau'n tyfu.
Pawb

Prynu hadau a dilyn cyfarwyddiadau.
Arthur